February 2012

# BMC CYMRU



## NEXT MEETING TUESDAY 7TH FEB 8.00 P.M.

**Gallt y Glyn - Llanberis - Free Food - All Welcome**

### White Guide for the White Stuff

The long-awaited and excellent North Wales White Guide is now available as a free download.

The guide, which aims to inform and educate winter climbers in Snowdonia on how best to enjoy the area, while at the same time minimising the potential damage to protected habitats and fragile environments, is a bilingual, collaborative effort from the BMC and the Countryside Council for Wales (CCW).

It has been produced by Ground Up, with support from Snowdonia Active and Snowdonia National Park.

It's a great opportunity to show the non-climbing community how climbers really do see the big picture and that we are willing to take responsibility for our actions. Available from www.thebmc.co.uk

### And White Turns to Green

Hot on the heels of the North Wales White Guide will be the South Wales Green Guide. This one aims to inform and educate on best practices for rock climbing down in the South Wales Valleys. Yet another example of us taking responsibility for our actions. Available from www.thebmc.co.uk

### All Systems Go in Mid Wales

After an extremely successful exploratory meeting held near Aberystwyth in November, a new BMC Mid Wales Outreach Group is being set up with a view to getting more input into BMC Cymru/Wales from Mid Wales based climbers. The first meeting that took place at the Druid Inn at Goginan on Wednesday Feb 1st. had an amazing 30+ turn-out. Moves are also underway to form a Mid Wales Mountaineering Club.

### Bouldering Bolts

Yet again the winter aggregates at both the Beacon and Indy Climbing Walls have supported the North Wales Bolt Fund – giving all of the aggregate fees

in full to the fund. To the middle of December this has totalled - £815.00. Added to which, Mike Doyle has donated generously form his royalties on the A55 Sport guidebook – thanks Mike.

The BMC ‘better bolts campaign’ also dropped off a bunch of shiny bolts the week before Christmas - nice pressie. The fund continues to support both local new routing and re-equipping projects. Climbers and clubs can donate to the bolt fund via paypal links on:

http://northwaleslimestone.wetpaint.com/
http://slate.wetpaint.com/
http://northwalesboltfund.webs.com/

Thanks all. North Wales Bolt Fund - Safer Clipping.
Chris Parkin




## Rainbow Slab Poster to Support North Wales Bolt Fund

In the wake of the warmly received Llanberis Slate guide Ground Up has produced a run of special edition Rainbow Slab topo posters with a view to boosting contributions to the North Wales Bolt Fund.

The A2 poster features a topo for the impressive Rainbow Slab, plus a few illustrative images and a Rogue’s Gallery of famous (or should that be: ‘infamous’) Slateheads.

The posters are available from V12 and Joe Brown in Llanberis, plus The Beacon and Indy Climbing walls for the bargain price of £2.95 - all proceeds will go to the North Wales Bolt Fund.




## National Trust

The NT recently introduced a programme called “The Ambassador Business Scheme”, which aims to increase the amount of formally organised outdoor activities on its land and properties.
However there have been concerns that this is simply a way of licensing, charging and controlling use made by outdoor centres and providers of NT land, with a fear that “sole or exclusive” rights may be given to a preferred provider for some activities on some sites. BMC and Mountain Training have organised meetings to discuss this further and are hopeful of a successful outcome.

Also, what do members think of National Trust collection boxes in places such as Llyn Idwal and at the start of the Watkin Path - appropriate?

## Political Stuff

A good meeting was had between the BMC and the Environment Minister in Cardiff in early December. A number of items were on the agenda, including coastal access, the proposed re-mapping of CROW access land, energy developments in mid Wales, and how the BMC can influence the forthcoming Natural Environment Framework Bill for Wales.

The outcome was that the minister has asked the BMC to produce a list and identify all coastal climbing sites where access is not “as of right” i.e. where we only have at best permissive or tolerated access or even where access is restricted. He has also since indicated that he would like to arrange a visit to some of these sites to see the issues and the BMC’s approach to managing conservation issues and conflict at these sites.

He has also instructed his officers to consult with the BMC to ensure that full consideration is given to include cliffs, crags and boulders which may have been missed out or BMC believes should have been included in the original mapping process for open access.
He was less forthcoming on the issue of wind –turbines in mid Wales, stating that the responsibility for large energy projects currently lies with the UK government’s appointed quango the Infrastructure Planning Commission, and not the Welsh Government in Cardiff.

The Natural Environment Framework bill is out to consultation on January 30th, and BMC Cymru will be a formal

consultee. This new piece of legislation could have far reaching and long term impact on both the conservation and access to the countryside of Wales, as the Welsh government can now legislate as it sees fit in this area, and can change the existing regulations and laws such as CROW and Wildlife and Countryside Act without having to refer to Parliament.
Elfyn Jones




**ACCESS**

- Gogarth- Penrhyn Mawr/The Range/Yellow Walls

In anticipation of the new guidebook BMC will be providing new belay stakes here (in agreement with RSPB), and also if technically possible along the top of Yellow Walls at South Stack, to prevent climbers blocking the coast path with ropes.

- Dali's Hole

As stated in the last Area meeting, the proposed terms of a lease to the BMC for this site were unacceptable for legal reasons to the BMC, and could have left he BMC responsible for some long term liabilities beyond the term of the lease, as well as adding to the amount of fencing at the site. The current situation seems to be continuing, but dialogue continues with First Hydro, and there are no recent reports of any incidents.

- Lleyn Peninsula

Meetings arranged with RSPB to review Chough sites near Aberdaron.

- Barmouth Quarry

Now open for climbing, subject to seasonal restrictions to protect nesting birds.

- Reminder

The annual Seasonal Climbing restrictions to protect nesting birds will soon be on us – check the BMC RAD for details!
Elfyn Jones

## Snowdonia National Park

The proposed new Ogwen interpretation centre has been deferred and the planning committee has requested that the design be "toned down" before being re-submitted, which reflects the views previously put forward by the by BMC.

## Footpath Works

Work is underway to place stone pillars, marked discreetly with the path names at the start of the main paths on Snowdon, and at key path junctions, replacing some of the existing stone pillars, with local stone. It is anticipated that this work will be completed by the end of summer 2012.

## Brecon Beacons National Park

The Park has requested a review and BMC input into the access arrangements at Llangattock. BMC Access & Conservation Trust contributed to footpath repair works on the black Mountain to support being done by the National Park to repair eroded paths.

## North Wales Limestone - Photo Appeal

By the end of April the new guide covering all the A55 crags and Ormes will be off to the printers. The Team are still short of fresh action shots, so to get yours in the book please send medium resolution samples to Pete Harrison or Andy Boorman (You will need high resolution for any that are used). Photos not used will be posted in the North Wales Limestone Wiki – subject to approval of course.
Pete Harrison
petellanrhos@gmail.com and
Andy Boorman
andyboorman@btinternet.com




## Notes from BMC Training and Youth Committee(TYC)

Following the very successful event in 2011, there will be another Coaching Symposium on

the 24th & 25th March. This time it will be taking place at Calshott OEC and full details are on the BMC website.

Another successFUL series of events has been the National Academies for talented young climbers identified during the Youth Climbing Series (YCS). The BMC YCS format has been reformed to align our age groups with that used in European competitions; the finals will now be held over two days, rather than a frantic single day.

The Belaying/Abseiling Get It Right leaflets and Bouldering Sense posters have been revised and can be seen at numerous local climbing walls/ cafes/meeting places.

Following a request by TYC, the BMC support for the Jonathan Conville Memorial Trust has been increased for 2012. Details of these courses can be seen on the BMC website.

The programmes for the Climbing Movement Masterclasses, the climbing FUNdamentals workshops and Alpine Lectures 2012, to be presented by Tim Neill and Nick Bullock, are now available.

Finally, TYC has been involved in the production of definitive guidance on the use of Fingerboards, with particular reference to under 18's.

`Andy Newton`

### Photo Request -2nd Edition of North Wales Bouldering Guide

Work is now under way on the full colour 2nd edition of the North Wales Bouldering guide. This Ground Up production is being authored by Simon Panton, the man behind the original black and white 2004 guide (which is now sold out) and northwalesbouldering.com.



“I’m currently collecting images for the new bouldering guide – so if you have any good material, please send it in for consideration, particularly if you have anything from the less visited venues.” said Simon.

The 2004 guide was the first (and to date, only) bilingual English/Welsh guidebook. However, the new book, by necessity, will be monoglot English; there are nearly 500 news items on northwalesbouldering.com so there is a considerable amount of new information to be added to the original script. A bilingual guide would have ended up the size of a house brick!

If it all goes to plan the new guide will hit the shops before the end of 2012.

### Gogarth South

Sea cliff fans will be pleased to note that work on the Ground Up Gogarth South guide is well advanced and it is due to be released early in the summer.

### Harlech Wall Officially Opened

A new state of the art climbing wall in Harlech has officially been opened comprising of a 10.5 metre tall leading wall and dedicated bouldering facilities. If you get rained off at Tremadog it's well worth checking out. It's a community led project with a new airy café and swimming pool as part of the centre. More at http://www.snowdonia-active.com/ and http://dmmclimbing.com/news/

### MLTE Update

Mark ‘Baggy’ Richards (photo) has been re-elected again to represent BMC Cymru/Wales in view of Mountain Leader Training. This is the body which oversees all mountain leader training for the UK. This is his



third year in the role and he admits to still enjoying it. Wales has a large amount of BMC members that deliver courses under the umbrella of MLTE and MLTW so if anyone would like any views raising with MLT

please get in touch with Mark (markrichards475@btinternet.com)

## New Routing

Ian Lloyd Jones, Phil Target and others continue to develop new routes in the Llanberis Slate Quarries (http://slate.wetpaint.com/), whilst up the coast both new routes and old have seen make-overs by the likes of Tony Shelmerdine and Norman Clacher. On limestone, there's been a flurry of new top end routes on the Little Orme – Diamond in the 8a – 8b range by Neil Dyer, Pete Robins and Tommy Charmings, check out the North Wales Limestone wiki http://northwaleslimestone.wetpaint.com/

On sadder note, Norman Clacher decked after pulling off a massive block, he only just missed landing on Mike Doyle but the block landed on him. He's now out of action with a cracked hip but in true Arnie style 'He'll be back' before the summer.

Chris Parkin

## All Quiet on the West Wales Front

Not much to report from a wet and windy Pembrokeshire but work continues on improved belay stakes above crags in the north and south. More news to follow in the next few months.

Steve Quinton

## BMC CRAG CODE

www.thebmc.co.uk

| | |
|---|---|
| **Access** | Check the Regional Access Database (RAD) on www.thebmc.co.uk for the latest access information |
| **Parking** | Park carefully – avoid gateways and driveways |
| **Footpaths** | Keep to established paths – leave gates as you find them |
| **Risk** | Climbing can be dangerous – accept the risks and be aware of other people around you |
| **Respect** | Groups and individuals – respect the rock, local climbing ethics and other people |
| **Wildlife** | Do not disturb livestock, wildlife or cliff vegetation; respect seasonal bird nesting restrictions |
| **Dogs** | Keep dogs under control at all times; don't let your dog chase sheep or disturb wildlife |
| **Litter** | 'Leave no trace' – take all litter home with you |
| **Toilets** | Don't make a mess – bury your waste |
| **Economy** | Do everything you can to support the rural economy – shop locally |

**BMC Participation Statement** — Climbing, hill walking and mountaineering are activities with a danger of personal injury or death. Participants in these activities should be aware of and accept these risks and be responsible for their own actions and involvement.

Chwefror 2012

# BMC CYMRU



## Y CYFARFOD NESAF NOS FAWRTH 7 CHWEFROR 8:00 P.M.

Gallt y Glyn - Llanberis - Bwyd am Ddim – Croeso i bawb

### Arweiniad Gwyn i'r Byd Gwyn

Mae'r arweiniad gwych hwn - Gogledd Cymru Gwyn- ar gael i'w lwytho i lawr am ddim erbyn hyn.

Dyma arweiniad dwyieithog sy'n ffrwyth cydweithio rhwng BMC a Chyngor Cefn Gwlad Cymru gan anelu at roi gwybodaeth ac at addysgu dringwyr gaeaf yn ardal Eryri ar sut i fwynhau'r ardal a chreu'r lleiaf posib o niwed i'r cynefinoedd hynny a warchodir a'r amgylcheddau bregus.

Cynhyrchwyd gan Ground Up gyda chefnogaeth Snowdonia Active a Pharc Cenedlaethol Eryri. Dyma gyfle gwych i ddangos i'r bobl nad ydynt yn dringo sut mae dringwyr yn gweld y darlun mawr ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithgareddau. Ar gael o www.thebmc.co.uk

### Y Gwyn yn Glasu

Yn union ar ôl Arweiniad Gwyn Gogledd Cymru daw Arweiniad Glas De Cymru. Yn hwn ceir gwybodaeth ac addysgu ar yr ymarferion gorau ar gyfer dringo creigiau yng Nghymoedd De Cymru. Dyma enghraifft arall o ninnau'n cymryd y cyfrifoldeb am ein gweithgaredd. Ar gael o www.thebmc.co.uk

### I Ffwrdd a ni yng Nghanolbarth Cymru

Ar ôl cyfarfod archwiliadol llwyddiannus dros ben a gynhaliwyd ger Aberystwyth ym mis Tachwedd, fe grëir Grwp newydd estyn allan Canolbarth Cymru o'r BMC gyda golwg ar ennill mewn o gyfraniadau at BMC Cymru/Wales oddi wrth ddringwyr Canolbarth Cymru. Bydd y cyfarfod cyntaf yn Druid Inn, Goginan ar ddydd Mercher Chwefror 1. Mae'r agenda ar gael ar Dudalennau Cymuned y BMC. Mae symudiadau ar droed hefyd i ffurfio Clwb Mynydda Canolbarth Cymru.

### Bolltau Bowldro

Unwaith eto mae agregau gaeaf y Waliau Beacon ac Indi wedi cefnogi Cronfa Bolltau Gogledd Cymru gan roi'r holl ffioedd

agregau i'r gronfa. Erbyn diwedd Rhagfyr roedd y cyfanswm yn £815.00. Yn ychwanegol at hyn, mae Mike Doyle wedi cyfrannu'n helaeth o'i freindaliadau am ei Arweiniad Chwaraeon A55. Diolch Mike.

Hefyd, mae ymgyrch Bolltau Gwell y BMC wedi gadael bolltau gloyw yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig - anrhegion dymunol. Mae'r gronfa yn dal i gefnogi'r dringfeydd lleol newydd a'r projectau offer newydd. Gall drinwyr a chlybiau gyfrannu at y gronfa bolltau drwy paypal ar on:http://northwaleslimestone.wetpaint.com/http://slate.wetpaint.com/http://northwalesboltfund.webs.com Diolch i bawb. Cronfa Bolltau Gogledd Cymru - Safer Clipping

Chris Parkin




## Llechfaen yr Enfys yn Cynorthwyo Cronfa Bolltau Gogledd Cymru

Yn sgil yr arweiniad i Lechfaen Llanberis, a gafodd groeso cynnes yn ddiweddar fe gynhyrchodd Ground Up gyfres o rifynnau arbennig o bosteri topo Llechfaen yr Enfys gyda golwg ar hyrwyddo'r cyfraniadau at Gronfa Bolltau Gogledd Cymru.

Ar y poster A2 gwych fe welir Llechfaen yr Enfys ac ychydig o luniau o Slateheads enwog.

Mae'r posteri ar gael yn V12 a Joe Brown yn Llanberis, ac o waliau dringo The Beacon ac Indy am y fargen o £2.95, Aiff yr holl elw at Gronfa Bolltau Gogledd Cymru.

## Materion Politicaidd

Cafwyd cyfarfod da rhwng BMC a Gweinidog yr Amgylchedd yng Nghaerdydd ar ddechrau mis Rhagfyr. Roedd nifer o faterion ar yr agenda, gan gynnwys mynediad arfordirol, yr ail-fapio o dir CROW a argymhellir, datblygiadau ynni yng nghanolbarth Cymru a sut y gall BMC ddylanwadu ar y Ddeddf Fframwaith Amgylchedd Naturiol Cymru sydd ar ddod.

Y canlyniad fu i'r gweinidog ofyn i'r BMC gynhyrchu rhestr sy'n nodi'r holl safleoedd dringo arfordirol lle nad oes hawl mynediad ond lle ceir ar y gorau fynediad goddefol neu oddefgar neu lle mae cyfyngiad ar fynediad hyd yn oed. Fe fynegodd ers hynny hefyd y byddai'n hoffi trefnu ymweliad â rhai o'r safleoedd hyn i weld y materion sy'n codi ac agwedd y BMC at reoli cadwraeth a gwrthdaro yn y safleoedd hyn.

Fe gyfarwyddodd ei swyddogion i ymgynghori â'r BMC er mwyn sicrhau yr ystyrir y clogwyni, creigiau a bolderi a fyddai fel arall yn cael eu diystyried neu rai y dylid ym marn y BMC, fod wedi'u cynnwys yn y broses wreiddiol o greu mapiau ar gyfer mynediad agored. Roedd llai ganddo i'w ddweud ar faterion twrbeiniau gwynt yng nghanolbarth Cymru gan fynegi mai cyfrifoldeb cwango'r DU sef y Comisiwn Cynllunio Isadeiledd oedd y cynlluniau ynni mawr ac nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

Ar Ionawr 30 mae'r ddeddf Fframwaith Amgylchedd Naturiol allan ar gyfer ymgynghoriad, a bydd BMC Cymru yn ymgynghorydd ffurfiol. Gallai'r darn o ddeddfwriaeth newydd hwn gael dylanwad pell gyrhaeddol a dros dymor hir ar gadwraeth ac ar fynediad cefn gwlad Cymru, y naill a'r llall, oherwydd gall llywodraeth Cymru ddeddfu yn y maes hwn, a gall newid y rheoliadau a'r deddfau presennol, fel CROW a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad heb gyfeirio at y Senedd yn Llundain.

Elfyn Jones




## Mynediad

- Gogarth- Penryhyn Mawr/The Range/Waliau Melyn

Wrth ddisgwyl yr arweinlyfr newydd, bydd BMC yn darparu stanciau belai newydd yma ( gyda chytundeb yr RSPB), a hefyd, os bydd yn bosib o ran techneg, ar hyd pen uchaf Waliau Melyn yn South Stack, er mwyn atal y dringwyr rhag creu rhwystrau ar y llwybr gyda'u rhaffau.

- Twll Dalios

Fel y datganwyd yn y cyfarfod Ardal diwethaf, roedd termau'r les a gynigiwyd i'r BMC am y safle hwn yn annerbyniol am resymau cyfreithiol, a gallai fod

y BMC wedi cael eu gadael yn gyfrifol am atebolrwydd hirdymor y tu hwnt i dymor y les, yn ogystal ag ychwanegu at y ffensio ar y safle. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa fel y mae hi yn parhau, ond mae trafodaethau'n parhau gyda First Hydro, ac nid oes unrhyw adroddiadau o unrhyw anffawd.

• Penrhyn Llyn
Trefnwyd cyfarfodydd gyda'r RSPB i adolygu safleoedd y brain coesgoch ger Aberdaron. CHWAREL ABERMO Ar agor ar gyfer dringo, yn amodol ar y cyfyngiadau tymhorol i warchod adar sy'n nythu.

• Nodyn Atgoffa
Yn fuan iawn, bydd y cyfyngiadau blynyddol ar Ddringo Tymhorol yma i amddiffyn yr adar sy'n nythu. Edrychwch ar BMC RAD i gael yr wybodaeth.
Elfyn Jones




## Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Yn ddiweddar, fe gyflwynodd yr YG gynllun o'r enw Cynllun Busnes Lysgenhadon, sy'n amcanu at gynyddu'r nifer o weithgareddau awyr agor ffurfiol sy'n cael eu trefnu ar eu tiroedd a'u heiddo.

Ond bu rhai pryderon mai dim ond dull o drwyddedu, codi tal a rheoli'r defnydd a wneir gan ganolfannau a darparwyr ar dir YG yw hyn, a'r ofn yw y rhoddir unig hawliau neu hawliau or allgynhwysol i ryw ddarparwr o ddewis ar gyfer rhai o'r gweithgareddau ar rai safleoedd. Fe drefnodd BMC a Mountain Training rai cyfarfodydd i drafod hyn ymhellach ac maent yn ffyddiog o ganlyniadau llwyddiannus.

Hefyd, beth yw barn aelodau ar flychau casglu arian mewn lleoedd fel Llyn Idwal ac ar ddechrau'r Llwybr Watkin - addas neu ddim?

## Parc Cenedlaethol Eryri

Mae canolfan arfaethedig Dehongli Ogwen wedi'i ohirio. Gofynnodd y pwyllgor cynllunio am i'r cynllun fod yn llai amlwg cyn ei ail-gyflwyno, sy'n adlewyrchu'r farn a gyflwynodd y BMC yn flaenorol.

## Gwaith ar y Llwybrau Troed

Mae'r gwaith o osod pileri cerrig newydd yn mynd rhagddo erbyn hyn. Bydd enwau'r llwybrau yn cael eu gosod ar y pileri ar gychwyn prif lwybrau Eryri ac ar y cyffyrdd llwybrau pwysig. Defnyddir cerrig lleol a byddant yn lle'r pileri cerrig presennol. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei orffen erbyn diwedd haf 2012.

## Parc Cenedlaethol Bannau Brycheinog

Gwnaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gais am adolygiad o fewnbwn BMC i'r trefniadau mynediad yn Llangadog. Cyfrannodd BMC ac Ymddiriedolaeth Mynediad a Chadwraeth at waith trwsio llwybrau ar y Mynydd Du er mwyn cynorthwyo gwaith y Parc Cenedlaethol i drwsio'r llwybrau sydd wedi erydu.

## Apel am Ffotograffau Carreg Galch Gogledd Cymru

Erbyn diwedd mis Ebrill bydd yr arweiniad newydd sy'n ymwneud â'r holl greigiau A55 yn nwylo'r argraffwyr. Mae'r tîm yn dal yn brin o luniau newydd o weithgareddau, felly i gael eich llun chi yn y n llyfr dylech anfon samplau cydraniadau canolog at Pete Harrison neu Andy Boorman ( bydd angen anfon cydraniad uchel ar gyfer y lluniau sy'n cael eu dewis). Bydd y lluniau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael eu postio ar Wiki Calchfaen Gogledd Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth wrth gwrs. Pete Harrison petellanrhos@gmail.com ac Andy Boorman andyboorman@btinternet.com

## NODIADAU ODDI WRTH HYFFORDDI BMC A'R PWYLLGOR IEUENCTID (TYC)

Yn dilyn y digwyddiad llwyddiannus dros ben yn 2011, bydd symposiwm hyfforddi arall ar 24 a 25 Mawrth. Y tro hwn, bydd yn digwydd yn Calshott OEC a bydd yr holl wybodaeth ar wefan y BMC.

Digwyddiad arall oedd yn llwyddiannus oedd Academi Genedlaethol i ddringwyr talentog a nodwyd yn ystod y Gyfres Dringo i Ieuenctid - Youth Climbing Series -(YCS). Cafodd fformat y BMC YCS ei ddiwygio er mwyn dod a'r grwpiau oedran yn gytûn gyda'r rhai mae cystadlaethau Ewrop yn eu defnyddio. Bydd y rowndiau terfynol yn cael eu cynnal dros

ddau ddiwrnod yn hytrach nag ar un diwrnod prysur.

Cafodd y taflenni belai ac abseilio Get It Right a Bouldering Sense eu diwygio. Maent ar gael i'w gweld mewn nifer o waliau dringo, caffis a mannau cyfarfod.

Yn dilyn cais gan TYC, fe gynyddodd y cymorth i Ymddiriedolaeth Coffa Jonathan Conville am 2012. Gellir gweld manylion am y cyrsiau hyn ar wefan y BMC.

Mae'r rhaglenni ar gael yn awr ar gyfer Climbing Movement Masterclasses, gweithdai Climbing Fundamentals a Darlithoedd Alpaidd 2012, gyda Tim Neill a Nick Bullock yn cyflwyno.

I gloi, mae TYC wedi gwella cynhyrchiad yr arweiniad terfynol ar ddefnyddio Byseddfyrddau, gan gyfeirio'n benodol at bobl o dan 18 oed.

Andy Newton

## Cais am Luniau - Ail Rifyn Arweiniad Bowldro Gogledd Cymru

Mae'r gwaith o greu ail rifyn lliw llawn arweinlyfr Bowldro Gogledd Cymru yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Awdur y llyfr a gynhyrchwyd gan Ground Up yw Simon Panton, sef y dyn oedd y tu cefn i'r arweinlyfr du a gwyn gwreiddiol yn 2004 ( allan o brint erbyn hyn), a northwalesbouldering.com.

Rwyf ar hyn o bryd yn casglu lluniau ar gyfer yr arweiniad bowldro newydd, felly os oes gennych unrhyw ddefnydd da, anfonwch ataf imi ei ystyried os gwelwch yn dda, yn enwedig unrhyw luniau o leoedd sy'n cael ymweliad llai aml. Simon.

Arweiniad 2004 oedd yr arweiniad dwyieithog cyntaf ( ar unig un ). Bydd y llyfr newydd yn unieithog o angenrheidrwydd. Mae bron 500 o eitemau newyddion ar northwalesbouldering.com felly bydd llawer iawn mwy o wybodaeth newydd i'w ychwanegu at y gwreiddiol. Byddai arweiniad dwyieithog gymaint â bricsen.



Os bydd popeth yn ôl y cynllun yna bydd yr arweiniad newydd yn y siopau erbyn diwedd 2012.

## De Gogarth

Bydd dilynwyr Dringo Clogwyni ar lan y môr yn falch o glywed bod y gwaith ar arweiniad Ground Up Gogarth South yn dod yn ei flaen yn dda a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau'r haf.

## Wal Harlech ar Agor yn Swyddogol

Agorwyd wal ddringo o'r cynllun diweddaraf un yn swyddogol yn Harlech. Mae'n cynnwys wal arwain 10.5 metr o uchder a chyfleusterau penodol i fowldro. Os bydd glaw mawr yn Nhremadog mae'n werth edrych yma. Dyma gynllun o dan arweiniad y gymuned gyda chaffi agored a phwll nofio sy'n rhan o'r ganolfan. Mwy o wybodaeth yn
http://www.snowdonia-active.com/
http://dmmclimbing.com/news/

## Ocsiwn Cylchgronay Mynydd

Cofio oes aur y cylchgrawn Mountain? Os nad ydych, cewch gyfle i'w weld pan fydd Barbara James yn cynnal ocsiwn o set o gylchgronau Mountain Rhifyn. 1-90 a 97, 98 & 100 er budd British Eczema Society.



## Newyddion Diweddaraf MLTE

Cafodd Mark Baggy Richards ei ailethol i gynrychioli BMC Cymru/Wales o ran hyfforddi Arweinwyr Mynydd. Dyma'r corff sy'n goruchwylio'r holl hyfforddi arweinwyr mynydd i'r DU. Dyma'i drydedd flwyddyn yn y swydd ac mae'n cyfaddef ei fod yn dal i fwynhau. Mae gan Gymru nifer fawr o aelodau BMC sy'n darparu cyrsiau o dan ymbarél MLTE a MLTW felly os oes unrhyw un yn dymuno datgan barn gyda'r MLT

gofynnir ichi gysylltu â  Mark Baggy Richards (markrichards475@btinternet.com)

## Dringfeydd Newydd

Mae Ian Lloyd Jones, Phil Target ac eraill yn dal i ddatblygu dringfeydd newydd yn Chwareli Llechi Llanberis (<http://slate.wetpaint.com/>) ac ar yr arfordir fe wellwyd dringfeydd hen a newydd gan rai fel Tony Shelmerdine a Norman Clacher. Ar y calchfaen, bu nifer o ddringfeydd uchel newydd ar Little Orme Diamond yn 8a 8b gan Neil Dyer, Pete Robins a Tommy Charmings. Tarwch olwg ar Calchfaen Gogledd Cymru wiki - http://northwaleslimestone.wetpaint.com/Yn drist, fe gafodd

Norman Clacher godwm o graig fawr gan osgoi syrthio ar ben Mike Doyle ond daeth y bloc arno. Craciodd ei glun, ond bydd yn ôl cyn yr haf.

Chris Parkin

## Popeth yn Dawel yng Ngorllewin Cymru

Nid oes rhyw lawer i'w adrodd o Sir Benfro wlyb a gwyntog, ond mae'r gwaith yn parhau ar wella stanciau belai y tu uchaf i'r creigiau yn y gogledd a'r de. Mwy o newyddion i ddilyn yn ystod y misoedd nesaf.

Steve Quinton

**BMC** **CÔD CREIGIAU**
**www.thebmc.co.uk**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mynediad** | Gwiriwch y gronfa-ddata mynediad rhanbarthol (RAD) ar www.thebmc.co.uk am y gwybodaeth diweddaraf ynglun â mynediad | **Bywyd gwyllt** | Peidiwch darfu ar da byw, anifeiliaid gwyllt, neu llystyfiant ar y clogwyni; parchwch gyfyngiadau tymhorol nythu adar |
| **Parcio** | Parciwch yn ofalus gan osgoi giatiau a thramwyfeydd | **Cŵn** | Cadwch cŵn o dan rheolaeth ar bob achlysur; peidiwch gadael eich ci hel defaid neu darfu ar bywyd gwyllt |
| **Llwybrau** | Cadwch at y llwybrau sydd wedi'u sefydlogi. Gadwch giatiau fel 'rydych yn eu ffeindio | **Sbwriel** | Peidiwch gadael olion – cymrwch eich sbwriel i gyd adref gyda chi |
| **Peryglon** | Gall dringo fod yn beryglus- derbyniwch y peryglon a byddwch yn ymwybodol o bobl eraill o'ch cwmpas | **Tai bâch** | Peidiwch gwneud llanast – claddwch eich gwastraff |
| **Parch** | Grwpiau ac unigolion- parchwch y graig, moeseg dringo lleol a phobl eraill | **Economi** | Gwnewch popeth a fedrwch i gefnogi'r economi gwledig- prynnwch yn lleol |

**Datganiad cyfranogaeth y BMC** — mae dringo, cerdded bryniau a mynnydda yn weithgareddau gyda perygl o niwed personnol neu marwolaeth. Dylai cyfrannogion yn y gweithgareddau yma fod yn ymwybodol o'r peryglon ac yn fodlon eu derbyn, a dylent fod yn gyfrifiol am eu gweithredau a'u cysylltiad.